Mae rhai pobl yn rhannu negeseuon a lluniau personol. Does dim o'i le ar hynny. Mae rhywbeth o'i le ar ddefnyddio'r cynnwys hwnnw i gam-drin, achosi embaras, cywilydd neu flacmelio rhywun.

Mae cael caniatâd yn hanfodol, gall fod cyn lleied â chytundeb llafar ond rhaid iddo fod yn gytundeb rhwng y ddwy ochr, a roddir yn rhwydd ac y gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. NID caniatâd yw:

Defnyddio ymddygiad bygythiol neu ddylanwadol i greu neu dderbyn delwedd bersonol.

Ffilmio rhywun yn gwneud gweithred rywiol heb yn wybod iddo/i.

Anfon delwedd bersonol ohonoch chi eich hun heb i neb ofyn amdano.

Mae yn erbyn y gyfraith...

I greu, cadw a rhannu delweddau anweddus o unrhyw un o dan 18 oed.

Rhannu, a bygwth rhannu, delweddau personol o rywun dros 18 oed.

Recordio delwedd rywiol breifat heb ganiatâd na gwybodaeth at ddibenion boddhad rhywiol.




Os bydd rhywun yn ymddiried ynoch ac yn anfon llun ohonyn nhw eu hunain, i chi y maen nhw wedi'i anfon, nid i unrhyw un arall. Peidiwch â'i anfon ymlaen na'i bostio ar-lein.

Roeddech chi'n arfer eu hoffi a'u parchu ar un adeg, gwnewch y peth iawn a dilëwch unrhyw ddelweddau personol maen nhw'n eu rhannu gyda chi os ydych chi'n gwahanu. Mae'n iawn i fod eisiau i'ch lluniau personol chithau gael eu dileu hefyd.

SWGfL Safe, Secure, Online

Revenge Porn Helpline

Home Office

revengepornhelpline.org.uk

0345 6000 459*

help@revengepornhelpline.org.uk

*Mae cost galwadau'r un faint â rhifau llinell dir safonol sy'n dechrau gyda '01 neu '02. Os yw'ch tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, bydd galwadau i rifau 0345 hefyd yn cael eu cynnwys.